

Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mawrth, 24 Mawrth 2015

1.15 – 1.45

Swyddfa'r Coleg, Caerdydd

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:

Andrew Green (Cadeirydd)
Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch (rhwydwaith)
Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol
Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg
Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol (rhwydwaith)
Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch (rhwydwaith)
Yr Athro Catrin Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch (rhwydwaith)
Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (rhwydwaith)
Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd) (rhwydwaith)

Sylwedyddion:

Olivia Jones (Prifysgolion Cymru)
Kimberley Meringolo, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Lisa Newberry (Prifysgolion Cymru)

Swyddogion:

Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Catherine Rees, Ysgrifennydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Nia Brown, Swyddog Datblygu, Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Ymddiheuriadau:

Beth Button, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr
Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch

| Eitem | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau gweithredu | Cyfnod amser |
|--|--|---------------------|--------------|
| 1. Croeso a chyflwyniad | <p>1.1 Estynnwyd croeso i'r cyfarwyddwyr i gyfarfod arbennig o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr i drafod eitem Cymraeg i Oedolion a ohirwyd o gyfarfod 4 Mawrth 2015. Cafwyd cyflwyniad gan y Cadeirydd yn egluro cyd-destun cais y Coleg i Lywodraeth Cymru i arwain maes Cymraeg i Oedolion. Nodwyd bod y Llywodraeth yn ymwybodol nad oedd y Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi cael cyfle i drafod a chymeradwyo'r cais.</p> <p>1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion</p> | | |
| 2. Datganiadau o ddiddordeb | <p>2.1 Datganodd tri cyfarwyddwr ddiddordeb yn yr eitem Cymraeg i Oedolion. Roedd dau o'r rhai a ddatganodd ddiddordeb yn bresennol yn y cyfarfod.</p> <p>2.2 Eglurwyd bod hawl gan y cyfarwyddwyr hynny i ddatgan sylwadau ond y byddent yn ymadael â'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a'r bleidlais.</p> | | |
| 3. Cymraeg i Oedolion: sylwadau gan gyfarwyddwyr sydd â diddordeb | <p>3.1 Nodwyd sylwadau'r aelodau a oedd yn datgan diddordeb.</p> <p>3.2 Cyflwynwyd sylwadau ysgrifenedig gan gyfarwyddwr sector addysg uwch nad oedd yn medru bod yn bresennol. Nodwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod y cais, ym marn yr aelod, yn anghyfansoddiadol, gan fod yr amcanion sydd yn y Cyfansoddiad yn cyfeirio at 'addysg uwch' 'cyfrwng Cymraeg' ac at 'weithio gyda sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a thrwyddynt'; • Y byddai'r cais yn gwneud drwg i hanfod y Coleg a'i berthynas gydag addysg uwch ac y dylai'r Coleg fod wedi ymgynghori | | |

| | | | |
|--|---|--|--|
| | <p>gyda'r prifysgolion cyn bwrw ymlaen gyda'r cais;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod y Coleg yn cystadlu yn erbyn y sefydliadau addysg uwch hynny sydd hefyd wedi gwneud ceisiadau ar gyfer bod yn Endid Cymraeg i Oedolion; • Bod y cais yn golygu nad yw'r Coleg yn canolbwyntio gant y cant ar addysg uwch cyfrwng Cymraeg; • Bod unrhyw gais gan y Coleg sydd heb gynnwys y darparwyr yn methu gwarantu safon; • Gwnaethpwyd cyfeiriad hefyd bod swyddogion y Coleg, ym marn yr aelod, wedi llunio perthynas gyda'r Mudiad Meithrin a'r WEA yn gyfrinachol. <p>3.3 Nododd un o'r cyfarwyddwyr sector addysg uwch ei phryder ynghylch y Coleg yn cystadlu gyda'r sefydliadau.</p> <p>3.4 Nododd un o'r cyfarwyddwyr sector addysg uwch ei fod yn gallu gweld y ddwy ochr i'r mater, a'i fod yn pryderu y byddai'r anghytuno yn peryglu undod y Bwrdd.</p> <p>Ar y pwynt hwn, gadawodd y cyfarwyddwyr oedd wedi datgan diddordeb y cyfarfod.</p> | | |
| <p>4. Cymraeg i Oedolion: cefndir</p> | <p>4.1 Cafwyd crynhoad o gyd-destun y cais Cymraeg i Oedolion ar ran tîm rheoli'r Coleg gan y Prif Weithredwr. Nodwyd amgylchiadau sefydlu'r Coleg yn dilyn ymrwymiad polisi gan Lywodraeth Cymru 2007-2011. Nodwyd bod gweithgareddau'r Coleg wedi ymestyn y tu hwnt i'r hyn a oedd wedi ei gynnwys yn adroddiad gwreiddiol yr Athro Robin Williams.</p> <p>Yn ôl dealltwriaeth tîm rheoli'r Coleg o'r ddogfen gais, dymuniad y Llywodraeth yw i gorff cenedlaethol ymgymryd â'r rôl strategol ym maes Cymraeg i Oedolion. Nid darparwr fyddai'r corff canolog ond byddai ganddo rolau y mae'r Coleg eisoes yn eu cyflawni sef cynllunio, cydlynu a chefnogi. Pwysleisiwyd ei fod yn briodol, felly,</p> | | |

| | | | |
|--------------------------------------|---|--|--|
| | <p>yn sgil y profiad a'r strwythur sy'n bodoli'n barod i'r Coleg gynnis gwasanaeth i Lywodraeth Cymru. Mater i'r Llywodraeth fyddai penderfynu i ba gorff y dylid dyfarnu'r gwaith. Y mae'r Coleg yn ymwybodol o geisiadau eraill ac yn dymuno'n dda iddynt.</p> <p>4.2 Cyhoeddwyd y gwahoddiad i gyflwyno cais gan Lywodraeth Cymru fis Rhagfyr 2014, felly yr oedd hynny wedi cyfarfod y Bwrdd ar 26 Tachwedd 2014. Trafodwyd y posibiladau gan yr uwch reolwyr a'r Cadeirydd a chytunwyd i fynychu cyfarfod gwybodaeth yn y Drenewydd ar 19 Ionawr 2015. Yn y cyfarfod hwnnw, nododd un o swyddogion y Llywodraeth y byddai'n well ganddynt pe byddai'r endid wedi ei leoli mewn sefydliad nad oedd hefyd yn ddarparwr Cymraeg i Oedolion. Yn dilyn trafodaeth bellach gyda'r Cadeirydd, anfonwyd neges at aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn nodi argymhelliad i baratoi cais erbyn 25 Chwefror 2015 a gwnaed hynny ar sail ymateb mwyafrif aelodau'r Bwrdd. Cefnogwyd y bwriad i gyflwyno'r cais gan swyddogion Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a rhoddwyd gwybod i swyddogion Prifysgolion Cymru yn ogystal.</p> <p>4.3 Derbyniwyd cyngor cyfreithiol yn nodi nad oes rheswm cyfansoddiadol na ellir cyflwyno cais y Coleg.</p> <p>4.4 Nodwyd mai cais gan y Coleg yn unig ydyw ac nid oes partneriaid ffurfiol. Ni fu unrhyw drafodaethau cyfrinachol. Nodwyd petai'r cais yn llwyddo bod nifer o gyrff cenedlaethol wedi datgan diddordeb mewn cydweithio â'r Coleg ac y byddem yn edrych ymlaen at gydweithio gyda'r holl brifysgolion. Cafwyd trafodaethau wrth baratoi'r cais gyda Cholegau Cymru a CBAC. Pwysleisiwyd na fyddai cais llwyddiannus yn effeithio ar waith presennol y Coleg gan y byddai staff penodol yn cael eu penodi i gyflawni'r gwaith.</p> | | |
| <p>5. Cymraeg i Oedolion:</p> | <p>5.1 Cafwyd trafodaeth ar y mater.</p> | | |

| | | | |
|--------------------------|---|--|--|
| <p>trafodaeth</p> | <p>5.2 Cyfeiriodd cyfarwyddwr annibynnol at y ffaith nad yw'r Coleg yn cystadlu yn erbyn unrhyw un gan nad yw'n ddarparwr Cymraeg i Oedolion a'i fod o blaid y cais.</p> <p>5.3 Dywedodd cyfarwyddwr annibynnol ei bod yn croesawu'r cais i ddechrau ond roedd erbyn hyn yn pryderu byddai'r cais yn achosi colli Bwrdd cytûn, a bod y Coleg yn cystadlu yn erbyn ei rhanddeiliaid.</p> <p>5.4 Cefnogodd cyfarwyddwr sector addysg uwch arweinyddiaeth strategol y Coleg a dywedodd ei bod yn gefnogol o'r cais.</p> <p>5.5 Datganodd cyfarwyddwr sector addysg uwch ei siom wrth glywed y gwrthdeimladau sefydliadol a nodwyd ei gefnogaeth i gais y Coleg.</p> <p>5.6 Cytunodd y Cyfarwyddwr Staff gyda'r sylwadau, gan bwysleisio'r ffaith bod y Llywodraeth yn gofyn am gorff cenedlaethol i arwain y maes.</p> <p>5.7 Cytunodd cyfarwyddwr sector addysg uwch gyda'r sylwadau gan bwysleisio bod angen i'r Cyfarwyddwyr oll ddeall eu cyfrifoldebau fel cyfarwyddwyr cwmni. Cyfeiriodd at gylch gwaith y Llywodraeth a dyfodol y Coleg yn sgil cyllid gan y Cyngor Cyllido (HEFCW) yn dod i ben. Datganodd bod angen adnewyddu cenhadaeth y Coleg er mwyn sicrhau parhad addysg uwch Cymraeg.</p> <p>5.8 Nododd cyfarwyddwr annibynnol nad oedd gwrthwynebiad cyfansoddiadol ganddo yn erbyn y cais ond pryderai ynghylch doethineb y datblygiad a sut y gellid unioni'r sefyllfa yn y dyfodol. Gofynnodd a fyddai'r manteision yn gwrthbwysu'r anghydfod.</p> <p>5.9 Ategodd cyfarwyddwr annibynnol y sylwadau gan gyfeirio at beryglu'r berthynas â'r rhanddeiliaid.</p> | | |
|--------------------------|---|--|--|

| | | | |
|--|---|--|--|
| <p>6. Cymraeg i Oedolion: pleidlais</p> | <p>6.1 Eglurwyd bod pleidlais yr un gan yr aelodau ar wahân i'r sawl a oedd wedi datgan diddordeb a bod pleidlais bwrw gan y Cadeirydd petai angen.</p> <p>6.2 Canlyniad y bleidlais:</p> <p>Cadarnhau'r cais – 5</p> <p>Tynnu'r cais yn ôl – 3</p> <p>Neb yn atal y bleidlais.</p> | | |
| <p>7. Cymraeg i Oedolion: camau nesaf</p> | <p>7.1 Yn dilyn pleidlais, gyda'r mwyafrif yn cadarnhau'r cais, cytunwyd i hysbysu'r Llywodraeth bod cais y Coleg i arwain maes Cymraeg i Oedolion yn sefyll.</p> <p>7.2 Datganodd y Cadeirydd ei fod wedi nodi natur y trafodaethau am y cais gan y Coleg i fod yn Endid Cymraeg i Oedolion, ac addawodd ceisio ei orau i ddatrys unrhyw anghydweld ymhlith aelodau'r Bwrdd. Nodwyd yr angen i dderbyn y canlyniad a symud ymlaen.</p> | | |
| <p>8. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf</p> | <p>8.1 Nodwyd mai cyfarfod arferol nesaf y Bwrdd Cyfarwyddwyr fyddai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 17 Mehefin 2015, Abertawe <p>8.2 Diolchwyd i Osian Rhys am gyfieithu ar y pryd.</p> | | |